THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE NATIONAL ACADEMY – CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION
YR ACADEMI GENEDLAETHOL – YN DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL

**COFNODION NAWFED CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y GYMDEITHAS A GYNHALIWYD YN ADEILAD MARTIN EVANS, PRIFYSGOL CAERDYDD, CAERDYDD**
**MERCHER, 22 MAI 2019**

**Presennol:**

Syr Emyr Jones Parry *(Llywydd)*
Yr Athro David Boucher *(Is-lywydd)*
Yr Athro Michael Charlton *(Is-lywydd)*
Yr Athro Keith Smith *(Trysorydd)*
Yr Athro Alan Shore *(Ysgrifennydd Cyffredinol)*

Yr Athro Gert Aarts
Yr Athro Arnold Beckmann
Yr Athro Richard Bevin
Yr Athro Emma Cartey
Yr Athro Michael Davies
Yr Athro Russell Davies
Yr Athro Mererid Puw Davies
Yr Athro Peter Edwards
Yr Athro Sam Evans
Yr Athro Hywel Francis
Yr Athro Sophie Gilliat-Ray
Yr Athro Katie Gramich
Yr Athro Alan Guwy
Yr Athro Peter Halligan
Yr Athro Andrew Henley
Yr Athro Trevor Herbert
Yr Athro Deirdre Hine
Yr Athro Karen Holford
Yr Athro Julian Hopkin
Yr Athro Mererid Hopwood
Yr Athro Bleddyn Huws
Yr Athro Matthew Jarvis
Yr Athro Venkateswarlu Kanamarlapudi
Yr Athro Helgard Krause
Yr Athro John Lazarus
Yr Athro Ceridwen Lloyd-Morgan
Yr Athro Biagio Lucini
Yr Athro Paul Meredith
Yr Athro Peter Midmore
Yr Athro Faron Moller
Yr Athro Hywel Morgan
Yr Athro Densil Morgan
Yr Athro W. John Morgan
Yr Athro Bernhard Moser
Yr Athro Helen Nicholson
Yr Athro John Wyn Owen
Yr Athro Julian Preece
Yr Athro Philip Prewett
Yr Athro Raluca Radulescu
Yr Athro Nigel Rapport
Dr Hugh Rawling
Yr Athro Sally Roberts Jones
Syr PaulSilk
Yr Athro Patricia Skinner
Yr Athro Jean Thomas
Yr Athro Ned Thomas
Yr Athro Julia Thomas
Yr Athro Mark Thomas
Yr Athro Terry Threadgold
Yr Athro John Tucker
Yr Athro Meena Upadhyaya
Yr Athro Colin Williams
Yr Athro Catrin Williams
Dr Lynn Williams
Yr Athro Susan Wong

**Yn gweinyddu:**

Mr Martin Pollard *(Prif Weithredwr)*
Dr Sarah Morse *(Uwch Swyddog Gweithredol)*
Mrs Amanda Kirk *(Clerc y Cyngor)*
Ms Ruby Moore *(Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu)*
Mrs Fiona Gaskell *(Cynorthwyydd y Gymrodoriaeth)*
Ms Catrin Beard *(Cyfieithydd)*
Mr Simon Gough *(Ffotograffydd)*

***Dechreuodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol am 3.45 p.m.***

## 1. Croeso a Chyflwyniad gan Lywydd y Gymdeithas

Gwnaeth y Llywydd, Syr Emyr Jones Parry y canlynol:

1.1 croesawu'r Cymrodyr oedd yn bresennol, yn benodol Cymrodyr oedd newydd eu hethol, i Nawfed Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas, gan ddiolch iddynt am eu presenoldeb;

1.2 hysbysu'r Cymrodyr bod croeso iddynt annerch y cyfarfod yn Gymraeg neu Saesneg;

1.3 mynegi ei ddiolch i Is-Ganghellor a staff Prifysgol Caerdydd am alluogi cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn y Brifysgol.

## 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb a fyddai'n cael eu rhestru fel atodiad i gofnodion y cyfarfod.

## 3. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 23 Mai 2018

**CAFODD, NODODD** A **PHENDERFYNODD** yr Aelodau **GYMERADWYO** Cofnodion Wythfed Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 23 Mai 2018, a lofnodwyd gan y Llywydd ar ddiwedd y cyfarfod.

## 4. Mater Llywodraethu

CAFODD a NODODD yr Aelodau bapur AGM/2019/01, Materion Llywodraethu.

Nododd y Llywydd fod yr offerynnau llywodraethu ar ffurf Siarter Brenhinol ac is-ddeddfau a Rheoliadau'r Gymdeithas i'w canfod ar wefan y Gymdeithas (www.learnedgymdeithas.wales/about-us/governance) neu gellir gwneud cais amdanynt mewn fformat papur i Glerc y Cyngor.

Nododd y Llywydd fod Dr Sally Davies a'r Athro Ieuan Hughes wedi'u hethol gan eu cymheiriaid ar y Cyngor i gynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor Cymrodoriaeth o ddiwedd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 22 Mai 2019 hyd at ddiwedd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol mis Mai 2022.

Nododd y Llywydd fod yr Athro Helen Fulton wedi'i hethol gan gymheiriaid ar y Cyngor i gynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor Etholiadau, Enwebiadau a Phenodiadau o ddiwedd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 22 Mai 2019 hyd at ddiwedd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol mis Mai 2022.

Croesawodd y Llywydd nhw a diolchodd iddynt am wasanaethu.

## 5. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017/18

**CAFODD** a **NODODD** yr Aelodau bapur AGM/2019/02 a'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2017/18 (sef wythfed cyfnod cyfrifo'r Gymdeithas). Cyflwynwyd y rhain gan Drysorydd y Gymdeithas. Roedd rhybudd wedi'i roi i Gymrodyr bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2017/18 ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Gymdeithas.

**NODWYD YMHELLACH:**

- Bod y Cyfrifon yn dangos bod y cyfan ar wahân i £4,000 o gyfanswm adnoddau incwm y Gymdeithas (£305,510) ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu'n dod o dan gategori cronfeydd anghyfyngedig. Mae'r Fantolen yn dangos asedau net o £378,658 ar ddiwedd y cyfnod.
- Bod y Trysorydd yn nodi bod y Gymdeithas wedi cofnodi gwarged bach yn 2017-18, yn sgil newidiadau staffio yn ystod y flwyddyn.
- Bod y Trysorydd yn nodi cefnogaeth hael barhaus gan y prifysgolion, sef ffynhonnell fwyaf y Gymdeithas o incwm anghyfyngedig.
- Bod y Trysorydd yn atgoffa'r Cymrodyr mai nhw oedd ail ffynhonnell fwyaf o gyllid y Gymdeithas gan amlygu manteision Rhodd Cymorth; gofynnodd i'r Cymrodyr ystyried Rhodd Cymorth ar gyfer eu tanysgrifiad os nad oeddent eisoes yn gwneud hynny.
- Bod angen amrywio'r ffrydiau incwm, gyda mathau gwahanol o waith codi arian wedi dechrau dros y 6 mis diwethaf.

Diolchodd y Llywydd i'r Trysorydd ac aelodau o'r Pwyllgor Cyllid am eu stiwardiaeth ofalus o adnoddau'r Gymdeithas.

Gwahoddodd y Llywydd sylwadau gan y Cymrodyr ar adroddiad y Trysorydd. Nid oedd sylwadau.

**PENDERFYNODD** yr Aelodau'n **FFURFIOL I DDERBYN** yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2017/18.

**Penodi Archwilwyr**

**NODODD** Aelodau bod PricewaterhouseCoopers mewn blynyddoedd blaenorol wedi archwilio cyfrifon y Gymdeithas yn hael ar sail pro bono ar yr un pryd ag archwilio cyfrifon Prifysgol Cymru. Yn dilyn uno Prifysgol Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, nid oedd y gwasanaeth bellach ar gael gan PwC. Roedd staff yn trafod trefniadau pro bono amgen, ac yn ymchwilio opsiynau eraill pe na bai'r gwasanaeth hwn ar gael bellach.

Gwahoddwyd Cymrodyr i ystyried unrhyw ffynonellau eraill a allai ddarparu gwasanaethau pro bono i'r Gymdeithas a hysbysu'r Trysorydd neu'r staff.

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn y dylai'r Cyngor benodi archwilwyr yn yr amgylchiadau hyn maes o law.

**6. Cynllun Strategol 2018 – 2023**

**CAFODD** a **NODODD** yr Aelodau bapur AGM/2019/03, y Cynllun Strategol.

Gwahoddodd y Llywydd y Prif Weithredwr i gyflwyno'r papur. Cyflwynodd Martin Pollard fanylion cynllun pum mlynedd y Gymdeithas. Y bwriad yw llywio ei holl weithgareddau a'i datblygiadau i'r dyfodol. Ceir copi o'r cyflwyniad yma [insert link]

Ceir copi o'r Cynllun Strategol yma.

Gwahoddodd y Llywydd sylwadau gan y Cymrodyr.

Anerchodd Dr Robin Gwyndaf y cyfarfod gan ddiolch i'r aelodau am y cyfle i fod yn bresennol. Awgrymodd y dylai'r Gymdeithas roi blaenoriaeth i'r Gymraeg ym mhob gohebiaeth. Atgoffodd y Llywydd y Cymrodyr fod y Gymdeithas yn trin y ddwy iaith yn gyfartal.

**7. Gweithgareddau a Datblygiadau ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf**

**CAFODD** a **NODODD** yr Aelodau bapur AGM/2019/04, adroddiad ar weithgareddau a datblygiadau ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf ar 23 Mai 2018.

Yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau, gwahoddodd y Llywydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol i gyflwyno'r adroddiad.

Ategodd yr Athro Shore gyd-destun a diben y Gymdeithas a thynnodd sylw at bob adran yn yr Adroddiad:

- **Newid.** Roedd y Gymdeithas wedi gweld llawer iawn o newid drwy gydol y flwyddyn gan groesawu tri aelod newydd o staff – Martin Pollard (Prif Weithredwr), Ruby Moore (Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu) a Fiona Gaskell (Cynorthwyydd y Gymrodoriaeth). Nododd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ymadawiad Phil Jones a adawodd y Gymdeithas ym mis Ionawr 2019. Diolchodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol i'r holl staff am sicrhau rhediad llyfn y Gymdeithas drwy'r cyfnod hwn o newid.

  Newid arall fu penodi cynrychiolwyr y Gymdeithas mewn sefydliadau unigol drwy Gymru. Diolchodd yr Athro Shore i'r canlynol am gytuno i weithio ar ran y Gymdeithas: Yr Athro Iwan Morus, Dr Robin Chapman, Yr Athro Alma Harris, Yr Athro Simon Hands, Yr Athro Trevor Herbert, Yr Athro Diana Huffaker, Yr Athro Gillian Bristow, Yr Athro Claire Gorrara, Dr Catrin Williams, Yr Athro Helen Wilcox a'r Athro Diana Wallace.

- **Hybu Dysgu a Thrafod.** Nododd yr Athro Shore lwyddiant y gyfres ddarlithoedd Dyfodol ein Hiechyd a gwaith diflino'r Athro John Wyn Owen oedd yn parhau i gynrychioli'r Gymdeithas yn datblygu agenda Un Iechyd i Gymru.

  Roedd yr Athro David Boucher wedi trefnu Symposiwm Caergrawnt y Gymdeithas ar Foeseg Ffyniant Cynaliadwy, gan gynnwys trefnu cyllido'r digwyddiad.

  Roedd Phil Jones wedi trefnu a chyflwyno rhaglen beilot i ymgysylltu ag ysgolion ac wedi paratoi'r ffordd i ehangu cynrychiolaeth a hybu gwaith pellach gydag ysgolion.

- **Digwyddiadau'r Dyfodol**. Hysbysodd yr Athro Shore y Cymrodyr fod y Gymdeithas wedi bod yn ymwneud â threfnu'r Gyngres Astudiaethau Celtaidd ym Mangor ym mis Mehefin 2019.

  Nodwyd bod y Gymdeithas wedi cynnal darlith yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol a bod y thema'n cyfnewid rhwng y gwyddorau a'r celfyddydau. Eleni roedd y Gymdeithas yn cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y tro cyntaf y byddai gan y Gymdeithas

bresenoldeb ar y Maes. Anogwyd Cymrodyr i gymryd rhan a chefnogi'r Gymdeithas.

- **Astudiaethau Cymreig.** Gwahoddodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yr Yr Athro David Boucher i roi'r newyddion diweddaraf i Gymrodyr ar y gwaith roedd yn ei wneud gyda'r Athro Wynn Thomas a Dr Sarah Morse.

  Nododd yr Athro Boucher bod grŵp trawsddisgyblaethol wedi'i sefydlu i ddod â gwybodaeth am yr holl ymchwil sy'n cael ei wneud am Gymru at ei gilydd. Roedd y grŵp yn canolbwyntio ar ymchwil sefydledig a gyrfa gynnar, ac roedd yn bwriadu creu llyfryn Astudiaethau Cymreig i'w lansio yn y Senedd yn yr hydref. Byddai cystadleuaeth poster ymchwil hefyd gyda gwobr o £500.

  Nododd yr Athro Boucher y dylai unrhyw un a hoffai ymuno â'r grŵp gysylltu â Dr Sarah Morse.

Diolchodd y Llywydd i'r Ysgrifennydd Cyffredinol a'r Athro Boucher am eu cyflwyniad a'u cyfraniad gwerthfawr i waith y Gymdeithas gan wahodd sylwadau gan y Cymrodyr ar yr hyn a gyflwynwyd.

Nodwyd bod gan y grŵp Astudiaethau Cymreig ddiddordeb mewn ymchwil am Gymru ble bynnag yn y byd roedd yn cael ei gynnal.

Hysbyswyd y Gymrodoriaeth bod y Gymdeithas yn gobeithio cael ei phresenoldeb ei hun yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y tymor hir. Fodd bynnag roedd yn bwysig peidio ag ymrwymo i wneud mwy nag oedd y Gymdeithas yn gallu ei wneud yn y lle cyntaf. Roedd cefnogaeth y Gymrodoriaeth yn hanfodol i lwyddiant digwyddiadau o'r fath ac anogwyd Cymrodyr i fynychu a chymryd rhan.

Nododd Y Llywydd o ran gwaith allgymorth ei obaith y byddai'r amrywiaeth eang o arbenigedd o fewn y Gymrodoriaeth yn annog ysgolion i gydweithio gyda'r Gymdeithas i gefnogi myfyrwyr ac ysbrydoli symudiad at addysg uwch.

Nododd yr Athro Wynn Thomas ddau ddigwyddiad pwysig efallai yr hoffai'r Gymdeithas eu dathlu. Y cyntaf oedd canmlwyddiant y Gadair gyntaf mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth; a'r ail oedd cyhoeddi *The Cambridge History of Welsh Literature*, y cyhoeddiad cynhwysfawr cyntaf o'i fath.

Nododd y Llywydd fod Prifysgol Aberystwyth wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau i nodi'r canmlwyddiant, a bod y Gymdeithas wedi trefnu i lansio'r *Cambridge History* yn y Senedd gydag Elin Jones AC.

## 8. Materion y Gymrodoriaeth

Galwodd y Llywydd ar yr Athro Michael Charlton i gyflwyno'r papur ar Faterion y Gymrodoriaeth.

**CAFODD** a **NODODD** yr Aelodau bapur AGM/2019/05,

Nododd yr Athro Charlton mai cyfanswm nifer y Cymrodyr oedd 540 ac ni 544 fel y nodir ar y papur hwn. Amlygwyd bod angen gwella'r nifer o fenywod a dderbynnir i'r Gymrodoriaeth o hyd.

Diolchodd yr Athro Charlton i staff y Gymdeithas am eu holl waith yn trefnu a chyflawni etholiad y Gymrodoriaeth, yn enwedig yn wyneb ymadawiad Phil Jones a'r cyfrifoldebau ychwanegol.

Nodwyd gyda thristwch bod y Gymdeithas yn nodi marwolaeth y Cymrodyr canlynol ers y Cyfarfod Cyffredinol diwethaf:

Syr Michael Atiyah, Yr Athro Roger Ainsworth, Y Parchedig Owen E. Evans, Yr Athro Christopher Hooley, Y Parchedig Athro Gwilym H. Jones, Yr Athro Ieuan Gwynedd Jones, Yr Athro Haydn Mason, Yr Athro Andrew Pelter, Yr Athro Paul O'Brien, Yr Athro Meic Stephens

Gwahoddwyd y Cymrodyr i sefyll am funud o dawelwch er parch.

Diolchodd y Llywydd i'r Athro Charlton.

**9. Ethol Cymrodyr newydd, 2019/20, y Croeso Ffurfiol a Chyflwyno Cymrodyr**

Galwodd y Llywydd ar yr Athro Alan Shore i gyflwyno rhan hon y cyfarfod.

**CAFODD** a **NODODD** yr Aelodau bapur AGM/2019/06 oedd yn amlinellu'r broses o ran croesawu a chyflwyno Cymrodyr yn ffurfiol.

Galwodd yr Athro Shore ar bob un o'r Cymrodyr newydd yn eu tro. Croesawodd y Llywydd bob un yn ffurfiol i'r Gymdeithas, gan eu cyfarch â'r geiriau canlynol:

> *'Yn enw Cymdeithas Ddysgedig Cymru a thrwy ei hawdurdod, fe'ch derbyniaf chi yn Gymrodyr y Gymdeithas'*.

Llofnododd pob Cymrawd oedd wedi'i dderbyn i'r Gymrodoriaeth y Rhestr o Gymrodyr gan addunedu, fel aelod o'r Gymdeithas Ddysgedig Cymru:

> 'Rwyf yn addunedu i wneud popeth o fewn fy ngallu i gynnal dibenion ac enw da'r Gymdeithas'.

**10. Anerchiad Blynyddol y Llywydd, Syr Emyr Jones Parry**

Cyflwynodd Syr Emyr Jones Parry ei anerchiad blynyddol i'r Cymrodyr. Bydd testun yr anerchiad ar gael ar dudalen Cyhoeddiadau gwefan y Gymdeithas.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.25pm*

ATODIAD

**Derbyniwyd ymddiheuriadau ffurfiol i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 22 Mai 2019 gan:**

Yr Athro Mansel Aylwood, Yr Athro Cara Aitchison, Yr Athro Peter Atkinson, Yr Athro Davide Bonifazi , Yr Athro Sir Leszek Borysiewicz, Y Fonesig Hilary Boulding, Yr Athro Alan T Bull, Yr Athro Anthony K Campbell, Yr Athro Ruth Chadwick, Yr Athro Robin Chapman, Yr Athro Simon Cox, Yr Athro Ceri Davies, Yr Athro Douglas Davies, Yr Athro Sioned Davies, Yr Athro Nancy Edwards, Yr Athro Menna Elfyn, Yr Athro Howard Evans, Yr Athro Steve Evans, Yr Athro Baroness Ilora Finlay, Yr Athro Tony Ford, Yr Athro Helen Fulton, Yr Athro Maria Goddard, Yr Athro Claire Gorrara, Yr Athro Keith Harding, Yr Athro John Hartley, Yr Athro Ann Heilmann, Yr Athro David Herbert, Yr Athro Diana Huffaker, Yr Athro Ieuan Hughes, Yr Athro Graham Hutchins, Yr Athro Christine James, Yr Athro Angela John, Yr Athro Ann John, Yr Athro Hywel (Ceri) Jones, Yr Athro Mari C Jones, Yr Athro Trevor M Jones, Yr Athro Simon Jones, Yr Athro Peter Knowles, Yr Athro Andrew Lever, Arglwydd Lisvane, Yr Athro Keith Lloyd, Yr Athro Malcolm Mason, Y Gwir Bachedig Dr Barry Morgan, Yr Athro Robin Okey, Yr Athro Syr Stephen O'Rahilly, Yr Athro Ann Parry Owen, Yr Athro Stuart Palmer, Yr Athro Judith Phillips, Yr Athro Eleri Pryse, Yr Athro Richard Rathbone, Yr Athro Sian Reynolds, Yr Athro Keith Robbins, Yr Athro Ceridwen Roberts, Yr Athro Gareth Roberts, Yr Athro Phillip Schofield, Yr Athro Mike Scott, Yr Athro Jonathan Shepherd, Yr Athro Frank Sengpiel, Yr Athro Elan Closs Stephens, Yr Athro Geoffrey Thomas, Yr Athro Hywel Thomas, Yr Athro Jean Thomas, Yr Athro Arglwydd John Thomas, Yr Athro Johanna Waters, Yr Athro Andrew Weightman, Yr Athro Helen Wilcox, Yr Athro Geraint Williams, Yr Athro Howard Williams, Yr Athro Robin Williams, Yr Athro Stuart Woodhead